

Adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

2016-2017

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd am y ffordd yr ydym wedi sicrhau cynnydd yn erbyn ein nodau strategol EDI yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2016, cytunom ar fframwaith newydd sy'n cyd-fynd â'n *Strategaeth 2015-2020*, sy'n parhau i wella ein dull gweithredu o ran EDI. Rydym wedi gosod nodau uchelgeisiol gan ein bod yn deall bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhannau annatod o pwy ydym a'r hyn a wnawn. Fel unig reolydd nyrsys a bydwagedd yn y Deyrnas Unedig, rhaid bod ein gwasanaethau yn deg ac yn hygyrch i bawb.

Mae'n huchelgais fel y nodir yn ein strategaeth yn parhau i fod yr un peth – sicrhau bod ein prosesau rheoliadol yn deg ac nad ydynt yn gwahaniaethu, bod yn gyflogwr da a defnyddio ein dylanwad er mwyn hyrwyddo gwelliannau pellach ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydw i'n falch o'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi gwaith ymchwil yn 2016/17 ynghylch amrywiadau o ran canlyniadau nyrsys BME sy'n mynd trwy ein prosesau addasrwydd i wneud gwaith, ac mae hyn yn dangos ein holl werthoedd sef tryloywder, pobl a thegwch.

Wrth i ni gynnal ein nod strategol o fod yn rheolydd dynamig a chynhwysol nyrsys a bydwagedd, byddwn yn parhau i wneud newidiadau sylweddol mewn meysydd megis datblygu medrusrwydd a safonau addysg nyrsio a bydwreigiaeth newydd, a rheoleiddio rôl newydd y cydymaith nyrsio.

Yr her i ni o hyd yw'r ffordd y byddwn yn monitro canlyniad y newidiadau hyn, gan sicrhau eu bod yn arddel cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnal ein cenhadaeth i ddiogelu'r cyhoedd ar yr un pryd. Rydw i'n hyderus y byddwn yn parhau i wneud gwelliannau, gan gynnal y cydbwysedd cywir.

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

29 Tachwedd 2017

Cynnwys

Cyflwyniad

Adran 1 Adroddiad blynyddol

*Y man lle'r ydym yn dymuno bod
Sut ydym yn mynd i gyrraedd y fan honno?
Cyflawniadau yn ystod 2016-2017
Sialensiau yn y dyfodol*

Adran 2 Data amrywiaeth

Cyflwyniad

Adran 2.1 Ein pobl

- 2.1.1 Aelodau'r Cyngor a phwyllgorau*
- 2.1.2 Staff*
- 2.1.3 Panelwyr addasrwydd i wneud gwaith*
- 2.1.4 Aseswyr cyfreithiol*

Adran 2.2 Nyrsys a bydwragedd cofrestredig

Adran 2.3 Data addasrwydd i wneud gwaith

- 2.3.1 Pryderon newydd*
- 2.3.2 Gorchmynion interim*
- 2.3.4 Archwilwyr achosion*
- 2.3.5 Gwrandawiadau*

Cyflwyniad

Hwn yw pumed adroddiad blynyddol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Nid yw cynhyrchu'r ddogfen hon yn ofyniad statudol, ond byddwn yn gwneud hynny er mwyn hyrwyddo arfer gorau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac er mwyn bod yn dryloyw wrth gyflawni ein nodau EDI. Rhannwyd yr adroddiad hwn yn ddwy adran. Mae adran un yn cynnig trosolwg o'r cyflawniadau yn erbyn nodau strategol EDI, a dynnwyd o *Strategaeth 2015-2020*. Mae adran dau yn cyflwyno data amrywiaeth ynghylch ein gweithlu a'r bobl ar ein cofrestr, gan gynnwys data ynghylch addasrwydd i wneud gwaith.

CNB yw'r rheolydd proffesiynol annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwagedd ar draws y Deyrnas Unedig. Rydym yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'n cyfrifoldebau rheoliadol fel a ganlyn:

- cynnal cofrestr o'r holl nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r gofynion er mwyn cofrestru yn y DU
- gosod safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel bod modd i nyrsys a bydwagedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson trwy gydol eu gyrfaoedd
- gweithredu er mwyn delio ag unigolion y codir cwestiwn ynghylch eu huniondeb neu eu gallu i ddarparu gofal diogel, fel bod modd i'r cyhoedd deimlo'n hyderus ynghylch ansawdd a safonau'r gofal a ddarparir gan nyrsys a bydwagedd.

Mae CNB yn rhwym i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fe'n henwir yn atodlen 19 y Ddeddf fel corff sy'n rhwym i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED). Mae PSED yn nodi bod yn rhaid i ni, wrth gyflawni ein swyddogaethau, ystyried mewn ffordd briodol yr angen i:

- waredu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waharddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae PSED yn cynnwys y naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon, lle y gwasgarir y ddeddfwriaeth cydraddoldeb ar draws sawl gorchymyn a rheoliad, a gwelir rhai gwahaniaethau yno o'i chymharu â'r sefyllfa ar draws gweddill y DU. Er enghraifft, mae Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 yn ystyried 'barn wleidyddol' fel categori cydraddoldeb hefyd.

Fel yr unig sefydliad yn y DU sy'n darparu'r swyddogaethau cyhoeddus hyn, rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn deg i nyrsys, bydwagedd, staff, cleifion a'r cyhoedd sy'n eu defnyddio.

Adran 1 Adroddiad blynyddol

Y man lle'r ydym yn dymuno bod

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y nyrsys a'r bydwagedd ar ein cofrestr, amrywiaeth ein staff ac amrywiaeth y gymuned ehangach yr ydym yn ei gwasanaethu. Rydym yn dymuno sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu ym mhopeth a wnawn. Daeth yr amcanion yr adroddwyd yn eu herbyn yn adroddiad blynyddol y llynedd i ben yn 2015, felly yn 2016, adolygom ein dull gweithredu tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth (E&D).

Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017, datblygom fframwaith EDI (cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant) newydd ar gyfer CNB, yn unol â nodau strategol cydraddoldeb ac amrywiaeth a nodwyd yn ein *Strategaeth 2015–2020: Rheoleiddio dynamig ar gyfer byd sy'n newid*. Ein blaenoriaeth oedd cryfhau ein dull gweithredu strategol er mwyn gwerthuso a rhoi sylw effeithiol i'r materion cydraddoldeb a godir gan ein gwaith. Cyn penderfynu ai fframwaith oedd y dull gweithredu cywir ar gyfer CNB, cynhaliom adolygiad o'r swyddogaeth E&D ym mis Mai 2016. Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch ymgysylltu mewnol ac allanol. Cynigiwyd a chytunwyd ar ddull gweithredu fframwaith EDI ym mis Medi 2016. Gellir troi at fframwaith EDI CNB ar [ein tudalen ar y we](#) ac mae'n nodi sut y byddwn yn parhau i ganlyn ein nodau strategol E&D, dulliau gweithredu arfer gorau a bodloni PSED.

Cymeradwyodd Cyngor CNB *Strategaeth 2015-2020* ym mis Mehefin 2014. Y nodau strategol cydraddoldeb ac amrywiaeth yw:

- sicrhau bod hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn
- cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol trwy sicrhau bod ein prosesau rheoliadol yn deg, yn gyson ac nad ydynt yn gwahaniaethu
- bod yn gyflogwr da – ceisio cael gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt ar bob lefel o fewn ein sefydliad
- defnyddio ein dylanwad er mwyn hyrwyddo gwelliannau pellach ym maes arfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- meithrin ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr gwasanaeth, nyrsys a bydwagedd ac eraill sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig trwy ddangos dealltwriaeth o'u hanghenion a'u dewisiadau a thrwy herio gwahaniaethu lle y byddwn yn cael tystiolaeth
- gwerthuso ac yn ôl yr angen, rhoi sylw i faterion cydraddoldeb a godir gan ein gwaith
- casglu tystiolaeth sy'n ein helpu i wybod ein bod yn deg ac yn gyson. Gweithio er mwyn gwella ansawdd a graddau data E&D am ein nyrsys a'n bydwagedd trwy eu gyrfaoedd

- sicrhau bod y rhai newydd sy'n ymuno â'r gofrestr yn gallu gwneud gwaith effeithiol mewn amgylcheddau amrywiol a byd-eang
- gosod ein disgwyliadau bod nyrsys a bydwragedd yn herio gwahaniaethu yn eu gwaith, eu bod yn ymwybodol o wahaniaeth a'u bod yn dangos parch tuag at bob claf, defnyddiwr gwasanaeth a chydweithiwr
- canlyn amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n ymgeisio i fod yn aelod o'r Cyngor, pwyllgorau a phaneli
- cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n arddel arfer gorau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys bodloni safonau sector cydnabyddedig.

Sut ydym yn mynd i gyrraedd y fan honno?

Yn 2016, datblygom fframwaith EDI newydd sy'n disgrifio'r ffordd yr ydym yn ystyried EDI. Crëwyd y **Grŵp Arwain ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth** (EDLG) er mwyn llywio'r broses o gyflawni fframwaith strategol EDI. Isod, dangosir gweithgarwch llywodraethu EDI:

| | Cyngor | Strategaeth a Llywodraethu |
|---|--|--|
| Noddwr Uwch ar gyfer EDI | Bwrdd Gweithredol | Adrodd am Berfformiad a Fframwaith Strategol EDI |
| Tîm Polisi EDI | Grŵp Arwain ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDLG) | Cynllun Gweithredu EDI a Rheoli Perfformiad |
| Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDF) | Darpariaeth Gweithredol Cyfarwyddiaeth | |

Mae'r EDLG hwn yn monitro'r blaenoriaethau EDI a nodwyd yng nghynlluniau busnes 2017. Crëwyd cynllun gweithredu EDI manylach ar lefel cyfarwyddiaeth ar gyfer 2017, a chaiff hwn ei fonitro gan EDLG. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu bod gennym ffocws mwy systematig a mesuradwy ar EDI. Ar ddechrau 2017, cyflwynwyd y cynlluniau gweithredu EDI ar draws y sefydliad.

Mae'r fframwaith yn cryfhau ein cydymffurfiaeth deddfwriaethol ac mae'n cynyddu ein hamlygrwydd ynghylch EDI. Byddwn yn monitro ein cynnydd er mwyn bodloni'r nodau E&D a nodwyd yn *Strategaeth 2015-2020*. Mae'r fframwaith yn rhoi EDI wrth wraidd ein sefydliad, gan ddangos ein hymrwymiad i wella profiadau grwpiau amrywiol.

Mae dull gweithredu CNB tuag at roi sylw i agenda E&D yn cynnwys pedair elfen, a rhoddir crynodeb o'r rhain isod.

- **Mae Strategaeth 2015–2020 CNB** yn disgrifio'r nodau strategol y mae'n rhaid i CNB eu cyflawni dros gyfnod o bum mlynedd a'r rhaglen gweithgareddau a gynlluniwyd i'w cyflawni.
- Mae **fframwaith strategol EDI CNB** yn gynllun cyflawni a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Medi 2016 er mwyn cynorthwyo gweithrediad *Strategaeth 2015-2020* CNB. Mae'r fframwaith wedi ailosod y gwaith cyflawni ar draws pum maes: arweinyddiaeth, polisi, cyfathrebu, tystiolaeth a staff.
- Mae **cynllun gweithredu EDI** yn darparu atebolrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth dros sicrhau bod yr amcanion yn fframwaith EDI yn cael eu cyflawni. Mae EDLG yn monitro hyn.
- Mae'r **adroddiad EDI blynyddol** (y ddogfen hon) yn adrodd am ein camau gweithredu a'n gwelliannau yn ystod y flwyddyn. Mae'n adolygu perfformiad yn erbyn nodau strategol a gofynion cyfreithiol, mae'n cyflwyno data ansoddol ynghylch amrywiaeth ar draws CNB er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol, ac mae'n cynorthwyo ein gwerthoedd trwy sicrhau ein bod yn fwy tryloyw.

Cyflawniadau yn ystod 2016-2017

Isod, rhoddir crynodeb o rai o'n prif weithgareddau EDI rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.

Strategol

Fframwaith EDI newydd

Mae arweinyddiaeth wrth wraidd fframwaith EDI newydd CNB. Hysbyswyd arweinwyr o hyn trwy gyfrwng cyfres o weithdai a sesiynau briffio EDI, lle y canolbwyntiwyd y drafodaeth ar ystyriaethau EDI, megis sut i ddelio â data ynghylch staff o 2015 a oedd yn dangos nad oedd staff du yn symud ymlaen i gyflawni rolau rheoli. Yn dilyn y sesiynau briffio hyn, mae pob arweinydd yn blaenoriaethu gweithgareddau EDI yn eu timau. Isod, nodir enghreifftiau o'r canlyniadau, a'r cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn.

Fel rhan o'r fframwaith, datblygom EDLG a'r Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDF) i staff. Roedd y rhain yn disodli'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Newidiodd EDLG yr iaith a ddefnyddir yn y sefydliad o E&D i EDI. Roedd hyn yn cydnabod pwysigrwydd iaith wrth gyfleu ymrwymadau sefydliadol ac wrth helpu i sicrhau bod unigolion yn teimlo fel pe baent yn cael eu cynnwys wrth ryngweithio â'r sefydliad, beth bynnag fo eu nodweddion gwarchoddedig.

Cynllun yr iaith Gymraeg

Mae cydymffurfiaeth â'n cynllun yr iaith Gymraeg wedi parhau i gael ei gynnwys fel rhan o'n proses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Mae hyn wedi llwyddo i sicrhau bod newidiadau polisi allweddol yn ystyried yr effaith ar siaradwyr Cymraeg o'r cychwyn. Trwy gydol 2016, buom yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch safonau'r Gymraeg newydd arfaethedig a fyddai'n disodli ein cynllun ac yn effeithio ar y gwaith a wnawn yng Nghymru.

Ymchwil am ganlyniadau nyrsys a bydwagedd BME sy'n mynd trwy brosesau addasrwydd i wneud gwaith

Comisiynom Prifysgol Greenwich i gynnal gwaith ymchwil er mwyn helpu i nodi'r graddau y caiff nyrsys a bydwagedd duon ac o leiafrifoedd ethnig (BME) eu cynrychioli mewn achosion FtP. Roedd yr adroddiad, *Cynnydd a Chanlyniadau Nyrsys a Bydwagedd Duon ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME) trwy Broses Addasrwydd i wneud Gwaith y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth* yn cynnwys nifer o ganfyddiadau. Yr un mwyaf arwyddocaol yw bod nyrsys a bydwagedd BME yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio atom na'u cymheiriaid gwyn. Cyflogwyr yw ffynhonnell fwyaf y cyfeiriadau ac roedd y cyfeiriadau hyn yn fwyaf tebygol o symud ymlaen i gamau hwyrach y broses FtP. Fodd bynnag, mae nyrsys a bydwagedd BME yn llai tebygol o gael eu tynnu oddi ar y gofrestr neu eu hatal na nyrsys a bydwagedd gwyn.

Cyhoeddodd y gwaith ymchwil ym mis Ebrill 2017, gan wneud yr ymrwymiad i barhau i gyfathrebu'n allanol trwy ein cylchlythyrau, datganiadau i'r wasg a chyflwyniadau mewn digwyddiadau gyda rhanddeiliaid amrywiol. Rydym yn cyfarfod gyda grwpiau cleifion, cyflogwyr, cyrff proffesiynol a rheolyddion eraill er mwyn ysgogi newidiadau ac rydym wedi ymrwymo i'r cam o ailadrodd yr ymchwil ar ôl i'r cylch ailddilysu cyntaf ddod i ben yn 2019. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan.

Datblygwyd grŵp prosiect er mwyn bwrw ymlaen gyda chanfyddiadau'r gwaith ymchwil. Mae hyn yn cynnwys trefnu bod y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr (ELS) yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda chyflogwyr. Roedd yr ymchwil wedi cyfrannu at ein gwaith mewnol, gan gynnwys ffurfioli hyfforddiant ynghylch tuedd anymwybodol fel rhan o FtP a hyfforddiant i archwilwyr achosion. Rydym yn ystyried meysydd eraill y byddai modd eu gwella, gan ddarparu hyfforddiant pellach ynghylch tuedd ar gyfer penderfynwyr rheoliadol eraill o bosibl, ac ehangu ein data ynghylch gwybodaeth reoliadol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Roedd gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda grwpiau amrywiol yn cynnwys cael cynrychiolaeth yn y canlynol, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain yn unig:

- Grŵp Cyngori Strategol BME CNO (Lloegr)
- Symposiwm Hunaniaeth Rhyw, a gynhaliwyd gan GIG Lloegr
- y Fforwm Rheolyddion, Arolygiaethau ac Ombwdsmyrn, a gynhaliwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- y Gymdeithas Nyrsys Nigeriaidd.

Yn ogystal, ymgysylltom â grwpiau am faterion penodol ar gyfer yr ymgynghoriad am y fframwaith addysg. Er enghraifft, mynychom gyfarfodydd yn yr Adran Iechyd ynghylch cynnwys pobl sydd ag anableddau dysgu mewn addysg iechyd a'r Coleg Nyrsio Brenhinol ynghylch hyfforddeion nyrsio B/byddar¹.

Meincnodi

Ein nod yw cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n arddel arfer gorau ym maes EDI. Mae CNB yn aelod o sawl corff sy'n ein cynorthwyo ac sy'n cynnig y cyfle i ni feincnodi ein hunain yn erbyn eraill. Y rhain yw enei (rhwydwaith cyflogwyr ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant), Stonewall, Busnes yn y Gymuned (BITC) a'r Fforwm Anabledd Busnes (BDF).

1

□ Defnyddwyr iaith arwyddion neu unigolion sydd â nam ar eu clyw

Cyflogwr

Ymgysylltu â staff

Ers adroddiad y llynedd, mae erthyglau wedi ymddangos yng nghylchlythyr y staff, gan gynnwys hyrwyddo EDF ar gyfer y staff, y Rhwydwaith Staff LGBT newydd a gwybodaeth ynghylch gwyliau a dyddiadau amrywiaeth allweddol. Rydym wedi creu tudalennau EDI newydd ar y fewnwyd, lle y gall staff weld gwybodaeth am bopeth sy'n ymwneud ag EDI, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd EDF, adnoddau a chanllawiau.

Mae gweithgarwch i gynyddu amlygrwydd EDI ar gyfer y staff yn parhau. Gall cyfathrebu mewnol fod yn heriol i sefydliad sydd wedi'i wasgaru ar draws pum safle. Roedd canlyniadau arolwg y staff yn 2015 yn dangos bod 85 y cant o'r staff yn dweud eu bod wedi cwblhau hyfforddiant E&D yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd y ganran hon wedi codi i 87 y cant yn 2016. Fodd bynnag, yn 2015, dywedodd 71 y cant o staff eu bod yn gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw er mwyn codi mater/pwnc ynghylch E&D. Roedd hwn wedi gostwng i 66 y cant yn 2016.

Diweddarwyd yr EDF ynghylch newidiadau polisi allweddol ac roedd y staff wedi helpu i'w siapio. Er enghraifft, fel rhan o weithgarwch ymgysylltu ar gyfer y rhaglen drawsnewid, cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau EDF er mwyn ceisio adborth am ddyfodol CNB, gan ystyried newidiadau fesul nodweddion gwarchoddedig.

Ail-lansiwyd dau rwydwaith staff amrywiaeth CNB – LGBT@NMC a Grŵp y Gymdeithas Gristnogol. Mae'r staff yn LGBT@NMC yn mynychu cyfarfodydd staff LGBT trawsreoliadol ac yn ymgysylltu â sefydliad ymgyrchu Stonewall, y mae CNB yn hyrwyddwr amrywiaeth ar ei gyfer. Mae'r grwpiau hyn yn cynnig fforwm i'r staff rannu profiadau a chyfrannu at bolisiâu mewnol.

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff

Cyflwynwyd hyfforddiant ynghylch tuedd anymwybodol i archwilwyr achosion a phanelwyr FtP fel rhan o'r hyfforddiant ymsefydlu a diweddarau er mis Chwefror 2017. Bu'r adborth yn hynod o gadarnhaol ac fe allai arwain at sicrhau bod hyfforddiant tebyg ar gael i benderfynwyr eraill o fewn CNB.

Rydym wedi darparu cwrs ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i staff a chwrs 'Rheoli a chynorthwyo iechyd meddwl yn y gwaith' gwell i reolwyr, a gaiff ei redeg gan elusen Mind. Yn ogystal, rydym wedi trefnu bod y cwrs hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gorfodol wyneb yn wyneb ar gyfer y staff yn fwy pwrpasol i swyddogaethau CNB.

Rhoddir sesiynau briffio ynghylch EDI i dimau dan drefniant ad hoc yn ôl yr angen. Er enghraifft, briffio aelodau'r Fforwm Cyflogaion ynghylch Deddf Cydraddoldeb 2010, a gweithdy wedi'i seilio ar sefyllfaoedd gyda'r tîm Cyfathrebu er mwyn nodi ffyrdd o wella cyfathrebu gyda grwpiau rhanddeiliaid amrywiol, megis cwsmeriaid y mae angen ffurfiau amgen a gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg arnynt.

Gweithredol

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym yn bwrw ymlaen gyda newidiadau rheoliadol sylweddol lle'r ydym wedi ceisio cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (EQIAs). Er enghraifft, rydym yn newid rheoleiddio ym maes bydwreigiaeth ac yn ailffurfio addasrwydd i wneud gwaith ac yn newid y rhaglen addysg.

Mae'r gwaith ar y rhaglen addysg, ac felly ystyriaeth o EDI, yn parhau, ond ystyriwyd effeithiau ar gydraddoldeb yn y camau a gwblhawyd hyd yn hyn, er mwyn sicrhau bod EDI yn cael ei ymgorffori yn y safonau yn y lle cyntaf. Mae dogfennau ymgynghori a digwyddiadau ymgysylltu gyda grwpiau amrywiol wedi ceisio adborth mewn perthynas ag EDI. Er enghraifft, un mater allweddol a ystyriwyd gennym wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd effaith gofynion hyfforddiant sy'n ymwneud ag amser ar hyfforddeion y gallent fod yn feichiog, ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth neu'n dioddef salwch hirdymor.

Cwblhaodd Cofrestru ac Ailddilysu adolygiad EDI o ba mor effeithiol yr oedd y gyfarwyddiaeth yn cydymffurfio â PSED ac yn integreiddio EDI yn ei pholisïau, ei phrosesau a'i ffyrdd o weithio. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar rôl rheoliadol y gyfarwyddiaeth, yn hytrach na fel cyflogwr, ac roedd wedi ein galluogi i roi blaenoriaeth i gamau gweithredu megis casglu data er mwyn cyfrannu at weithgarwch adrodd yn y dyfodol am amrywiaeth nyrsys a bydwagedd ar y gofrestr.

Mae'r gyfarwyddiaeth Cofrestru ac Ailddilysu wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Prawf Cymhwysedd (ToC) ar gyfer nyrsys tramor. Datblygwyd hwn yn 2016 ac roedd yn cynnwys y gofynion i'r darparwr gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, a bod y gwerthusiad ei hun yn ystyried tegwch y prawf. Cyhoeddir yr adroddiad gwerthuso yn hwyr yn 2017. Fel rhan o'r broses o gaffael canolfannau profi ToC newydd, cynhwyswyd cydymffurfiaeth ag EDI yng ngofynion y contract.

Mae'r proffesiynau yn parhau i ystyried y cam o gyflwyno ailddilysu ar gyfer nyrsys a bydwagedd fel rhywbeth cadarnhaol, ac mae wedi cefnogi'r nodau cydraddoldeb ac amrywiaeth strategol. Er enghraifft, arweiniodd EQIA at sefyllfa lle'r oedd trefniadau cymorth amgen mewn grym o ddechrau'r cam gweithredu ar y gyfer y rhai hynny na allent fodloni'r gofynion ailddilysu oherwydd anabledd neu nodweddion gwarchoddedig eraill.

Mae'r adroddiad ailddilysu blynyddol yn cyhoeddi data ynghylch nyrsys a bydwagedd sydd wedi ailddilysu neu wedi methu gwneud hynny, fesul nodwedd warchoddedig. Bydd y gwerthusiad a gomisiynwyd i ystyried effaith ailddilysu yn ystyried a fu unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar gyfer grwpiau penodol.

Er y bu'r adborth cyffredinol gan gofrestreion yn gadarnhaol ynghylch ailddilysu, mae'n EQIAs a'n gwaith monitro parhaus wedi nodi bod rhai nyrsys a bydwagedd hŷn wedi barnu bod ailddilysu yn her. Rydym yn parhau i fonitro'r dybiaeth hon ac rydym wedi addasu ein prosesau pan fo hynny'n briodol, megis darparu dulliau amgen o gasglu data.

Gwella ein data amrywiaeth

Un o'n nodau cydraddoldeb ac amrywiaeth strategol yw casglu tystiolaeth sy'n ein helpu i wybod ein bod yn deg ac yn gyson. Rydym yn gweithio i wella ansawdd a graddau data E&D ynghylch ein nyrsys a'n bydwagedd trwy gydol eu gyrfaoedd. Mae ehangu CNB ar-lein wedi galluogi nyrsys a bydwagedd i ryngweithio â ni yn haws, gan wella ansawdd ein data amrywiaeth. Oherwydd dulliau gwahanol o gasglu data amrywiaeth yn hanesyddol, mae hwn yn ddarlun ansawdd data sy'n gwella'n barhaus, wrth i nyrsys a bydwagedd ddiweddarau eu data ar borth ar-lein CNB.

Ym mis Mawrth 2017, roedd natur gyflawn data amrywiaeth yr oeddem yn ei ddal am nyrsys a bydwagedd ar y gofrestr fel a ganlyn: oedran 100 y cant, rhyw 100 y cant, ethnigrwydd 85 y cant, anabledd 82 y cant, crefydd a chredo 65 y cant, cyfeiriadedd rhywiol 85 y cant, statws priodasol 100 y cant a hunaniaeth rhyw 74 y cant. Mae'r niferoedd hyn wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd, a dylent godi wrth i fwy o nyrsys a bydwagedd gael eu cymell i ddiweddarau eu gwybodaeth bersonol pan fyddant yn defnyddio porth ar-lein CNB er mwyn aiddilysu dros y 18 mis nesaf. Mae hwn yn rhan o'n gwaith ehangach i wella ansawdd data, y mae modd gweld tystiolaeth ohono yn y cynnydd yn natur gyflawn y data amrywiaeth ers adroddiad y llynedd.

| Natur Gyflawn Data Amrywiaeth | 2015/16 | 2016/17 | Symud |
|-------------------------------|---------|---------|-------|
| Oedran | 100% | 100% | → |
| Rhyw | 100% | 100% | → |
| Ethnigrwydd | 83% | 85% | ↑ |
| Anabledd | 70% | 82% | ↑ |
| Crefydd a chredo | 56% | 65% | ↑ |
| Cyfeiriadedd rhywiol | 73% | 85% | ↑ |
| Statws priodasol | 100% | 100% | → |
| Hunaniaeth rhyw | 49% | 74% | ↑ |

Ymgyrchoedd recriwtio amlwg

Cynhaliwyd sawl ymgyrch recriwtio amlwg, gan gynnwys rhai ar gyfer aelodau Cyngor lleyg a phanelwyr FtP, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal cronfa amrywiol. Gwahoddom geisiadau gan ymgeiswyr amrywiol a hyrwyddo'r swyddi yn eang gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol megis Grŵp Cyngori Strategol BME CNO (Lloegr). Mae'r tabl isod yn dangos uchafbwyntiau o'r ymgyrch i recriwtio panelwyr FtP². Rydym yn cydnabod bod gennym fwy i'w wneud ac rydym yn datblygu ymgyrch recriwtio i gynorthwyo hyn.

2

² Mae'r categorïau data amrywiaeth a gyflwynir yn y tablau yn uchafbwyntiau o'r ymgyrch recriwtio ac ni ellir eu cymharu.

Recriwtio panelwyr FtP sy'n gofrestreion

| | 289 cais | 41 ymgeisydd llwyddiannus | Ar y gofrestr |
|--|----------|---------------------------|---------------|
| BME | 13% | 7% | 17% |
| Gwyn | 82% | 90% | 68% |
| Anhysbys/byddai'n well gennyf beidio dweud | 4% | 2% | 17% |
| Gwryw | 14% | 15% | 11% |
| Anabl | 5% | 10% | 5% |

Recriwtio panelwyr FtP lleyg

| | 592 cais | 74 ymgeisydd llwyddiannus | Poblogaeth y DU |
|--|----------|---------------------------|-----------------|
| BME | 13% | 7% | 13% |
| Gwyn | 82% | 91% | 87% |
| Anhysbys/byddai'n well gennyf beidio dweud | 6% | 2% | amh |
| Gwryw | 35% | 46% | 49% |
| Anabl | 6% | 0% | 20% |

Sialensiau yn y dyfodol

Gwelliant parhaus

Rhwng 2017 a 2020, byddwn yn canolbwyntio ar ymgorffori gwelliant parhaus trwy gyfrwng fframwaith EDI, ar gyfer busnes fel arfer a'n holl brosiectau allweddol. Darparir gwelliannau o ran cymdeithion nyrsio, bydwragedd y dyfodol ac FtP mewn ffordd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Trwy wneud hynny, byddwn yn datblygu ein tystiolaeth er mwyn bodloni nod strategol 7 cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd hyn yn caniatáu i ni dargedu ein gwaith gwella yn y ffordd orau er mwyn gwaredu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau wrth i ni ddiogelu'r cyhoedd.

Mae materion ynghylch natur anghymesur a godwyd gan y gwaith ymchwil ynghylch cyfeiriadau addasrwydd i wneud gwaith nyrsys a bydwragedd BME yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i wella'n systemau a'n prosesau er mwyn cynnig sicrwydd eu bod yn cynorthwyo canlyniadau nad ydynt yn gwahaniaethu ar gyfer nyrsys a bydwragedd, ond hefyd, gweithio gyda phartneriaid ar y fenter hon. Rydym yn cyfleu canfyddiadau'r gwaith ymchwil yn eang ymhlith cyflogwyr, addysgwyr, nyrsys a bydwragedd. Yn ogystal, rydym yn ymuno â phartneriaid, undebau, ymchwilwyr a chyrrff megis GIG Lloegr, sy'n ymwneud â'r gwaith ymchwil, er mwyn ymchwilio a deall yn well y ffactorau y gallent ddylanwadu ar ganlyniadau anghymesur. Er enghraifft, mae adroddiad Safon Cydraddoldeb Hil yn y Gweithlu (WRES) yn cyhoeddi data gan ddarparwyr gofal a ariannir gan GIG er mwyn dangos sut y maent yn rhoi sylw i faterion cydraddoldeb. Un o ganfyddiadau allweddol adroddiad 2016

yw bod staff BME o fewn GIG yn parhau i fod yn fwy tebygol o wynebu gwahaniaethu yn y gwaith gan gydweithwyr a'u rheolwyr a'u cydweithwyr gwyn. Rydym yn gweithio gyda'r awduron i ystyried yr hyn y gall y sefydliad ei ddysgu o'r canfyddiadau.

Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i'r cam o ailadrodd y gwaith o ddadansoddi data FtP ar gyfer grwpiau BME yn 2019 pan fydd gennym set ddata llawnach, fel rhan o'n gwelliant parhaus o'r data ynghylch amrywiaeth ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys staff a chofrestreion.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid megis Mencap, grwpiau anabledd dysgu, sefydliadau LGBT, a grŵp cynghori strategol BME CNO (Lloegr). Byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac eraill yn ystod y flwyddyn i ddod wrth asesu a pharatoi ar gyfer unrhyw effaith y bydd safonau'r Gymraeg yn ei chael ar swyddogaethau CNB. Bydd hyn yn cynnwys darparu ymateb i unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol.

Ansawdd data

Er ein bod wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran ansawdd ein data ynghylch amrywiaeth, rydym yn gweithredu rhaglen gwella ansawdd a thechnoleg a fydd yn cynorthwyo EDI a'n strategaeth ehangach o fod yn sefydliad mwy dynamig, a arweinir gan wybodaeth.

Moderneiddio rheoleiddio

Gan ddatblygu'r gwaith EQIA llwyddiannus a gwblhawyd ar gyfer yr ymgynghoriad am y rhaglen addysg, byddwn yn cysylltu ac yn ymgysylltu â grwpiau amrywiol yn gynnwys ynghylch medrusrwydd bydwagedd y dyfodol. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod rhai mamau ifanc yn teimlo bod ymwelwyr iechyd, bydwagedd a gweithwyr iechyd eraill yn eu 'barnu' oherwydd eu hoed a'u bod yn teimlo stigma oherwydd hyn¹. Byddwn yn sicrhau bod lleisiau mamau ifanc yn cael eu clywed yn ein proses ymgynghori am fedrusrwydd bydwagedd y dyfodol o'r cychwyn cyntaf. Ym mis Ionawr 2017, cytunom i gais y Llywodraeth mai CNB fyddai rheolydd rôl newydd y cydymaith nyrsio. Rydym wedi dechrau mapio effeithiau cydraddoldeb posibl hyn cyn i'r cymdeithion nyrsio newydd cyntaf gofrestru yn 2019. Gall twf prentisiaethau ar gyfer cymwysterau gofal iechyd agor mynediad i'r proffesiynau. Rhaid i ni sicrhau bod y llwybr prentisiaeth er mwyn cofrestru o'r un ansawdd â llwybrau eraill er mwyn sicrhau cydraddoldeb i newydd-ddyfodiaid nad ydynt yn rhai traddodiadol.

Gweithredu arfer gorau fel cyflogwr

Mae'r *Strategaeth Pobl* yn cynnwys ein hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal, gan sicrhau bod ein sefydliad yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chan

werthfawrogi gwahanol gyfraniadau ein pobl. Un o themâu'r *Strategaeth Pobl* yw parhau i roi sylw i gydraddoldeb ym maes camu ymlaen mewn gyrfa ac o ran tâl.

i

□ What matters to young mums; 2017; Young Women's Trust;
https://www.youngwomenstrust.org/assets/0000/6339/Young_Mums_report_version_2.pdf [accessed 14-06-17]

Adran 2 Data amrywiaeth

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno data ynghylch demograffeg amrywiaeth:

- ein pobl, gan gynnwys aelodau'r Cyngor, staff a gyflogir gan CNB, aelodau panel FtP ac aseswyr cyfreithiol
- nyrsys a bydwagedd ar y gofrestr
- amrywiaeth nyrsys a bydwagedd sy'n mynd trwy brosesau addasrwydd i wneud gwaith.

Mae'r data amrywiaeth ynghylch nyrsys a bydwagedd sydd wedi bod trwy'r broses ailddilysu ar gael ar wahân yn yr [adroddiad blynyddol ar ailddilysu](#).

Mae'r adran hon yn cynnwys data gan wahanol swyddogaethau CNB. Ein nod yw bod yn dryloyw, ac mae cyhoeddi'r data hwn yn ein helpu i fodloni sawl un o'n nodau cydraddoldeb ac amrywiaeth strategol.

Gallai'r derminoleg a ddefnyddir ym mhob adran amrywio yn ôl y dulliau casglu a ffynhonnell y data. Er enghraifft, defnyddir y termau 'hil' ac 'ethnigrwydd' yn gyfnewidiol.

Wrth gyflwyno'r data yn yr adroddiad hwn, talgrynwyd canrannau i'r cyfanrif agosaf neu un lle degol. Mewn nifer fach o achosion, mae hyn yn golygu y gallai'r data gynnig cyfanswm sydd ychydig dan/dros 100 y cant.

Ansawdd data

Ein nod 7 cydraddoldeb ac amrywiaeth yw 'Casglu tystiolaeth sy'n ein helpu i wybod ein bod yn deg ac yn gyson. Gweithio i wella ansawdd a graddau data E&D am ein cofrestreion trwy eu gyrfaedd'.

Rydym yn gwneud gwelliannau parhaus i'r ffordd yr ydym yn prosesu data amrywiaeth nyrsys a bydwagedd. Felly, o ganlyniad i newidiadau yn y ffordd yr ydym yn prosesu data ac yn gwella ansawdd data, ni fyddwn yn cymharu data amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn mwyach nes bod ein holl welliannau data wedi cael eu cwblhau. Yn ogystal, fel rhan o ailddilysu a dulliau eraill o wella ansawdd y data EDI yr ydym yn ei ddal, rydym yn gofyn i nyrsys a bydwagedd ddiweddar eu gwybodaeth o'u gwirfodd. Amcangyfrifwn y bydd yn cymryd tan ddiwedd 2020 i adolygu'r gofrestr yn llwyr.

Adran 2.1 Ein pobl

2.1.1 Aelodau'r Cyngor a phwyllgorau

Y Cyngor yw corff llywodraethu CNB. Mae'n pennu cyfeiriad strategol y sefydliad ac yn gwneud penderfyniadau allweddol. Mae'r Cyngor yn cynnwys deuddeg aelod:

chwe unigolyn lleyg a chwe nyrs neu fydwraig, o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, y maent oll yn cael eu penodi gan y Cyfrin Gyngor.

Mae'r proffil isod yn dangos data amrywiaeth y 22 aelod o'r Cyngor a phwyllgorau yr oeddent yn cyflawni rôl ar 31 Mawrth 2017. Ar yr adeg hon, roedd 10 aelod o'r Cyngor a 12 aelod pwyllgor nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor.

Cesglir y data amrywiaeth hwn pan benodir aelod i'r Cyngor, y Bwrdd Penodiadau a'r Pwyllgorau Archwilio neu Fydwreigiaeth³.

Rhyw

| Gwryw | Benyw |
|-------|-------|
| 5 | 17 |

Cyfeiriadedd Rhywiol

| Heterorywiol | Byddai'n well gennyf beidio dweud | Anhysbys |
|--------------|-----------------------------------|----------|
| 18 | 2 | 2 |

Anabledd

| Anabledd | Dim anabledd | Byddai'n well gennyf beidio dweud | Anhysbys |
|----------|--------------|-----------------------------------|----------|
| 2 | 16 | 2 | 2 |

Ethnigrwydd

Cyfunwyd y categorïau heb fod yn wyn er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod yr aelodau.

| Gwyn | BME | Byddai'n well gennyf beidio dweud | Anhysbys |
|------|-----|-----------------------------------|----------|
| 16 | 3 | 1 | 2 |

Oedran

| 40-49 | 50-59 | 60-65 | 65+ | Byddai'n well | Anhysbys |
|-------|-------|-------|-----|---------------|----------|
|-------|-------|-------|-----|---------------|----------|

³

³ Gwaredwyd y gofyniad statudol i gael Pwyllgor Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2017

| | | | | | gennyf beidio dweud | |
|---|---|---|---|---|---------------------|--|
| 1 | 6 | 4 | 6 | 1 | 4 | |

Crefydd/credo

| Cristion | Mwslim | Dim crefydd | Byddai'n well gennyf beidio dweud | Anhysbys |
|----------|--------|-------------|-----------------------------------|----------|
| 12 | 1 | 6 | 1 | 2 |

2.1.2 Staff

Mae'r proffil staff hwn yn dangos y data amrywiaeth ar gyfer y 661 o staff parhaol a oedd yn cyflawni swydd ar 31 Mawrth 2017. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn dal y data hwn a defnyddir holiadur E&D dewisol er mwyn ei gasglu. Y staff sy'n cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn yw cyflogeion parhaol CNB. Mae hyn yn unol â'r data a ddarparwyd yn adroddiadau'r flwyddyn flaenorol ac nid yw'n cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol, staff asiantaeth nac ymgynghorwyr.

Mae swyddfeydd CNB yn Llundain yn bennaf, a cheir swyddfa fach yng Nghaeredin. Felly, pan fo modd, seiliwyd y data cymharol yn yr adran hon ar boblogaeth oedran gweithio Llundain neu'n ail, ar boblogaeth y DUⁱⁱ. Fodd bynnag, rhaid nodi yn 2015 yr ychwanegwyd at y rhai a oedd yn byw ac yn gweithio yn Llundain gan 869,000 o gymudwyr i'r brifddinas, sy'n cyfateb â bron i 19 y cant o'r swyddi yn Llundainⁱⁱⁱ.

O'i gymharu ag adroddiad y llynedd, dyma rai o'r newidiadau i'w nodi:

- Ar gyfer y ffigurau oedran, bu gostyngiad o 5 y cant ym mand oedran 20-29, cynnydd o 3 y cant ym mand oedran 30-39, cynnydd o 2 y cant ym mand oedran 40-49, mae band oedran 50-59 yn aros yr un fath a bu cynnydd o 1 y cant yn y rhai dros 60 oed.
- Yn ogystal, mae'r gostyngiad yng nghanran y cyflogeion BME yng ngradd cyflog C o 21 y cant i 16 y cant yn drawiadol.
- Mae canran y staff yng nghategori ethnigrwydd du wedi newid ychydig eleni; gostyngiad yn y staff yng ngradd cyflog D o 21 y cant i 16 y cant, cynnydd o 2 y cant i 5 y cant yng ngradd cyflog D a chynnydd o 3 y cant i 5 y cant yng ngradd cyflog F.
- Mae canran y staff yng nghategori ethnigrwydd Asiaidd wedi newid ychydig; mae canran y staff Asiaidd yng ngradd cyflog G wedi gostwng o 12 y cant y llynedd i 10 y cant eleni, yng ngradd cyflog D maent wedi gostwng o 18 y cant i 12 y cant, ac yng ngradd cyflog E maent wedi codi o 13 y cant i 16 y cant yn ystod y flwyddyn hon.
- Nid yw cymhareb y benywod i'r gwrywod wedi newid rhyw lawer, ac mae cyfran y benywod 1 y cant yn uwch nag yr oedd y llynedd.


Dadansoddiad fesul oedran

Yn y DU, mae 8.2 miliwn o bobl dros 50 oed mewn cyflogaeth am dâl ac mae'r rhain yn fwy na chwarter y gweithlu cyfan. Yn CNB, mae'r rhai dros 50 oed yn cyfateb ag 14 y cant o'r gweithlu.


| Oedran | Nifer | % 2017 | % 2016 |
|-----------------|------------|-------------|-------------|
| Dan 20 | 0 | 0% | 0% |
| 20-29 | 170 | 26% | 31% |
| 30-39 | 281 | 43% | 40% |
| 40-49 | 119 | 18% | 16% |
| 50-59 | 78 | 12% | 12% |
| Dros 60 | 13 | 2% | 1% |
| CYFANSWM | 661 | 100% | 100% |

Graddau tâl yn ôl oedran

2016-17



2015-16



*gan gynnwys gradd tâl H gan bod y niferoedd yn rhy fach i'w hadrodd ar wahân.

Dadansoddiad yn ôl anabledd

Mae 2 y cant o'r staff yn nodi eu bod yn anabl. Mae hyn lawer yn is na chyfran preswylwyr Llundain o oedran gweithio sy'n nodi eu bod yn anabl, sef 11.3 y cant. Mae 6 y cant yn anhysbys neu'n nodi byddai'n well gennyf beidio dweud, ac fe allai hyn effeithio ar y gymhariaeth go iawn.

| Anabledd | Nifer | % 2017 | % 2016 |
|---|------------|-------------|-------------|
| Nac oes | 606 | 92% | 91% |
| Oes | 14 | 2% | 2% |
| Anhysbys/byddai'n well gennyf beidio ateb | 41 | 6% | 7% |
| CYFANSWM | 661 | 100% | 100% |

Dadansoddiad yn ôl hil (ethnigrwydd)

Mae'n data am y gweithlu yn casglu manylion ethnigrwydd dan 18+1 categori cyfrifiad ONS. Fodd bynnag, fe'u hadroddir yma dan gategoriâu ehangach Asiaidd, du, cymysg, arall, gwyn ac anhysbys/byddai'n well gennyf beidio ateb er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod unigolion.


Yn Llundain, mae 59.8 y cant o breswylwyr yn wyn, mae 13.3 y cant yn ddu/du Prydeinig, mae 5 y cant yn gymysg, mae 18.5 y cant yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig. Mae'r grŵp staff cyffredinol o fewn CNB yn cyd-fynd â'r ffigurau hyn. Fodd bynnag, mae'r ffigurau yn y siart isod 'Graddau tâl yn ôl hil (ethnigrwydd)' yn dangos amrywiad sylweddol o ran ethnigrwydd ym mhob gradd tâl. Yn adroddiad y llynedd, nodwyd bod nifer anghymesur o gyflogeion gwyn yn cyflawni rolau rheoli o'u cymharu â chyflogeion BME. Mae niferoedd y staff BME ar y graddau tâl uwch yn isel iawn a gall newidiadau bach gael effaith sylweddol ar y canrannau. Rydym yn monitro'r tueddiadau hyn yn unol â gweithgarwch ehangach er mwyn cynllunio'r

gweithlu ac yn cymryd camau ar lefel cyfarwyddiaeth er mwyn rhoi sylw i duedd posibl mewn prosesau recriwtio.


| Hil (ethnigrwydd) | Nifer | % 2017 | % 2016 | Llundain |
|---|------------|-------------|-------------|-------------|
| Asiaidd | 111 | 17% | 16% | 18% |
| Du | 92 | 14% | 15% | 14% |
| Cymysg | 28 | 4% | 4% | 5% |
| Arall | 9 | 1% | 2% | 3% |
| Gwyn | 398 | 60% | 60% | 60% |
| Anhysbys/byddai'n well gennyf beidio ateb | 23 | 3% | 3% | 0% |
| CYFANSWM | 661 | 100% | 100% | 100% |

Graddau tâl yn ôl hil (ethnigrwydd)

2016-17



2015-16



*gan gynnwys gradd tâl H gan bod y niferoedd yn rhy fach i'w hadrodd ar wahân.


Dadansoddiad yn ôl rhyw

Yn unol â gofynion statudol, rydym yn gweithio tuag at gyhoeddi'r bwlch tâl rhwng y ddau ryw yn 2018, a fydd yn rhoi mwy o ddirnadaeth i ni o rwystrau posibl i staff ar sail rhyw. Mae'r siart isod, 'Graddau tâl yn ôl rhyw' yn dangos bod CNB yn cynnwys mwy o staff benywaidd ar raddau tâl uwch nag y gwelir mewn elusennau eraill, cyrff llywodraethol neu gwmnïau FTSE, gan bod 83 y cant o'r cyfarwyddwyr yn fenywaidd, ac mae 57 y cant o'r rhai yng ngradd tâl is A yn wrywaidd^{iv v}.


| Rhyw | Nifer | % 2017 | % 2016 |
|-----------------|------------|-------------|-------------|
| Benywaidd | 427 | 65% | 64% |
| Gwrywaidd | 234 | 35% | 36% |
| CYFANSWM | 661 | 100% | 100% |

Graddau tâl yn ôl rhyw

2016-17



2015-16



*gan gynnwys gradd tâl H gan bod y niferoedd yn rhy fach i'w hadrodd ar wahân.

Dadansoddiad yn ôl crefydd/credo

O blith poblogaeth Llundain, mae 48 y cant o'r preswylwyr yn Gristnogion, nid oes gan 21 y cant unrhyw greddo crefyddol ac mae 12 y cant yn Fwslimiaid. Wrth gymharu hyn gyda data am staff CNB, y gwahaniaeth mwyaf trawiadol yw nad oes gan 33 y cant o staff CNB unrhyw grefydd/credo.

| Crefydd/credo | Nifer | % 2017 | % 2016 | Llundain |
|---|------------|-------------|-------------|-------------|
| Bwdhydd | 1 | 0% | 1% | 1% |
| Cristion | 256 | 39% | 39% | 48% |
| Hindŵ | 31 | 5% | 5% | 5% |
| Iddew | 6 | 1% | 1% | 2% |
| Mwslim | 54 | 8% | 7% | 12% |
| Dim crefydd/credo | 217 | 33% | 31% | 21% |
| Crefydd neu athroniaeth arall | 15 | 2% | 2% | 1% |
| Sikh | 12 | 2% | 1% | 1% |
| Anhysbys/byddai'n well gennyf beidio ateb | 69 | 10% | 13% | 9% |
| CYFANSWM | 661 | 100% | 100% | 100% |

Dadansoddiad yn ôl cyfeiriadedd rhywiol

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod rhwng 5 a 10 y cant o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn ddeurywiol, yn lesbiad neu'n hoyw^{vi}.

| Cyfeiriadedd rhywiol | Nifer | % 2017 | % 2016 |
|---|------------|-------------|-------------|
| Deurywiol | 4 | 1% | 0% |
| Hoyw neu lesbiad | 37 | 6% | 5% |
| Heterorywiol | 581 | 88% | 88% |
| Anhysbys/byddai'n well gennyf beidio ateb | 39 | 6% | 7% |
| CYFANSWM | 661 | 100% | 100% |

2.1.3 Panelwyr addaswydd i wneud gwaith

Mae aelodau panel FtP yn benderfynwyr annibynnol a nhw yn unig sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwrandawiadau FtP. Bydd o leiaf un aelod o'r panel yn nyrs neu'n fydwraig. Bydd y panel yn cynnwys o leiaf un aelod lleyg – mae hyn yn golygu eu bod yn dod o'r tu allan i'r proffesiwn ac nad ydynt wedi bod ar gofrestr CNB yn flaenorol.

Yn 2016, cynhaliom sawl ymgyrch recriwtio a sonnir yn fwy am fanylion y rhain yn adran un. O ganlyniad i ymgyrchoedd recriwtio parhaus, mae'n cronfa bresennol o banelwyr ac aseswyr cyfreithiol yn wahanol iawn i'r rhai a oedd yn adroddiadau'r flwyddyn flaenorol. Roedd 443 o aelodau panel yn y swydd ar 31 Mawrth 2017. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu data amrywiaeth am y panelwyr trwy gyfrwng arolwg ar-lein newydd, yr oedd 150 o aelodau panel wedi ymateb iddo ar 31 Mawrth 2017. Oherwydd y gyfradd ymateb isel (34 y cant), nid ydym wedi cyhoeddi'r data ynghylch amrywiaeth yn adroddiad eleni. Byddwn yn cyhoeddi'r data pan fyddwn yn cyrraedd o leiaf 50 y cant o'r gyfradd ymateb. Disgwylwn i'r data wella wrth i ni annog rhagor o banelwyr i ymateb i'r arolwg.

2.1.4 Aseswyr cyfreithiol

Mae aseswyr cyfreithiol yn fargyfreithwyr neu'n gyfreithwyr sy'n cynghori aelodau panel FtP am bwyntiau cyfreithiol yn ystod gwrandawladau FtP. Mae'r ffigurau a nodir fan hyn ar gyfer y 148 o aseswyr cyfreithiol a oedd yn cyflawni'r swydd ar 31 Mawrth 2017. Casglwyd y data trwy arolwg ar-lein newydd, yr oedd 36 o aseswyr cyfreithiol wedi ymateb iddo. Oherwydd y gyfradd ymateb isel (24 y cant), ni fyddwn yn cyhoeddi'r data amrywiaeth yn adroddiad eleni. Byddwn yn cyhoeddi'r data pan fyddwn yn cyrraedd cyfradd ymateb o 50 y cant.

Adran 2.2 Nyrsys a bydwragedd cofrestredig

Cofnodwyd ein gwelliannau parhaus i ansawdd y data a chyfanswm y data yn adran un yr adroddiad hwn. Yn adroddiad eleni, pan fo modd, rydym wedi rhannu'r ffigurau i broffesiynau nyrs, bydwrraig a nyrs/bydwrraig.

Ers adroddiad y llynedd, rydym yn cyhoeddi ffigurau am statws cofrestru nyrsys a bydwragedd ar wefan CNB nawr. Rydym yn cyhoeddi ffigurau am nyrsys a bydwragedd:

- ar y gofrestr yn ôl y math o gofrestrriad
- ar y gofrestr yn ôl grŵp oedran
- ar y gofrestr yn ôl y wlad y cymhwyswyd ynddi yn y lle cyntaf
- ar y gofrestr yn ôl y wlad y mae'r cyfeiriad ynddi
- sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf yn ôl y math o gofrestrriad
- sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf yn ôl grŵp oedran
- sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf yn ôl y wlad y cymhwyswyd ynddi yn y lle cyntaf
- sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf yn ôl y wlad y mae'r cyfeiriad ynddi
- sy'n gadael y gofrestr am y tro cyntaf yn ôl y math o gofrestrriad
- sy'n gadael y gofrestr am y tro cyntaf yn ôl grŵp oedran
- sy'n gadael y gofrestr am y tro cyntaf yn ôl y wlad y cofrestrwyd ynddi yn y lle cyntaf
- sy'n gadael y gofrestr am y tro cyntaf yn ôl y wlad y mae'r cyfeiriad ynddi.

Mae proffil y gofrestr yn y tablau canlynol yn dangos data amrywiaeth y 690,773 o nyrsys a bydwragedd a oedd ar ein cofrestr ar 31 Mawrth 2017. O'i gymharu ag adroddiad y llynedd, roedd 1777 yn llai o nyrsys a bydwragedd ar y gofrestr.

Dadansoddiad yn ôl oedran (pawb)

| Pawb yn 2017 | Nifer | % |
|-----------------|----------------|-------------|
| 20 - 29 | 95,553 | 13.8% |
| 30 - 39 | 146,146 | 21.2% |
| 40 - 49 | 192,047 | 27.8% |
| 50 - 59 | 200,634 | 29.0% |
| Dros 60 | 56,393 | 8.2% |
| Cyfanswm | 690,773 | 100% |

Er 2016, y newid mwyaf trawiadol yn yr oedran cyffredinol yw'r gostyngiad o 5632 (1 y cant) ym mand oedran 40-49.

Dadansoddiad yn ôl oedran (yn ôl y mathau cofrestriad)

| Nyrs | Nifer | % |
|---------|---------|-------|
| 20 - 29 | 88,719 | 13.7% |
| 30 - 39 | 135,733 | 21.0% |
| 40 - 49 | 181,359 | 28.0% |

| | | |
|-----------------|----------------|-------------|
| 50 - 59 | 187,877 | 29.0% |
| Dros 60 | 53,917 | 8.3% |
| Cyfanswm | 647,605 | 100% |

| Bydwraig | Nifer | % |
|-----------------|---------------|-------------|
| 20 - 29 | 6278 | 18.2% |
| 30 - 39 | 8836 | 25.6% |
| 40 - 49 | 8345 | 24.2% |
| 50 - 59 | 9313 | 27.0% |
| Dros 60 | 1782 | 5.2% |
| Cyfanswm | 34,554 | 100% |

| Deuol | Nifer | % |
|-----------------|--------------|-------------|
| 20 - 29 | 556 | 6.5% |
| 30 - 39 | 1577 | 18.3% |
| 40 - 49 | 2343 | 27.2% |
| 50 - 59 | 3444 | 40.0% |
| Dros 60 | 694 | 8.1% |
| Cyfanswm | 8,614 | 100% |

Dadansoddiad yn ôl anabledd (pawb)

| Pawb yn 2017 | Nifer | % |
|-----------------|----------------|-------------|
| Nac oes | 531,301 | 76.9% |
| Anhysbys | 124,089 | 18.0% |
| Oes | 35,383 | 5.1% |
| Cyfanswm | 690,773 | 100% |

Dadansoddiad yn ôl anabledd (yn ôl y mathau cofrestrriad)

| Nyrs | Nifer | % |
|-----------------|----------------|-------------|
| Nac oes | 497,601 | 76.8% |
| Anhysbys | 116,659 | 18.0% |
| Oes | 33,345 | 5.2% |
| Cyfanswm | 647,605 | 100% |

| Bydwraig | Nifer | % |
|-----------------|---------------|-------------|
| Nac oes | 27,098 | 78.4% |
| Anhysbys | 5752 | 16.6% |
| Oes | 1704 | 5.0% |
| Cyfanswm | 34,554 | 100% |

| Deuol | Nifer | % |
|-----------------|-------------|-------------|
| Nac oes | 6602 | 76.6% |
| Anhysbys | 1678 | 19.4% |
| Oes | 334 | 4.0% |
| Cyfanswm | 8614 | 100% |

Dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd (pawb)

| Pawb | Nifer | % |
|---|----------------|--------------|
| Asiaidd - Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 22,451 | 3.3% |
| Asiaidd - Bangladeshaidd | 695 | 0.1% |
| Asiaidd - Tsieineaidd | 2154 | 0.3% |
| Asiaidd - Indiaidd | 18,510 | 2.7% |
| Asiaidd - Pacistanaidd | 2767 | 0.4% |
| Cyfanswm Asiaidd | 46,577 | 6.8% |
| Du - Affricanaidd | 36,823 | 5.3% |
| Du - Unrhyw gefndir du arall | 1886 | 0.3% |
| Du – Caribïaidd | 8565 | 1.2% |
| Cyfanswm Du | 47,274 | 6.8% |
| Cymysg - Unrhyw gefndir cymysg/ethnig lluosog arall | 2393 | 0.3% |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 1776 | 0.2% |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 1547 | 0.7% |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 4865 | 0.7% |
| Cyfanswm Cymysg | 10,581 | 1.5% |
| Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall | 29,805 | 4.3% |
| Gwyn – Cymro/Cymraes/Sais/Saesnes/Albanwr/Albanes/Gwyddel/ Gwyddeles o Ogledd Iwerddon/Prydeiniwr/Prydeinwraig | 425,561 | 61.6% |
| Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 244 | 0% |
| Gwyn - Gwyddelig | 13,070 | 1.9% |
| Cyfanswm Gwyn | 468,680 | 67.8% |
| Arall - Unrhyw grŵp ethnig arall | 5030 | 0.7% |
| Byddai'n well gennyf beidio dweud | 11,474 | 1.7% |
| Anhysbys | 101,157 | 14.6% |
| Cyfanswm | 690,773 | 100% |

Dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd (yn ôl y mathau cofrestrïad)

| Nyrs | Nifer | % |
|---|---------|-------|
| Asiaidd - Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 22,313 | 3.5% |
| Asiaidd - Bangladeshaidd | 652 | 0.1% |
| Asiaidd - Tsieineaidd | 2028 | 0.3% |
| Asiaidd - Indiaidd | 18,280 | 2.8% |
| Asiaidd - Pacistanaidd | 2614 | 0.4% |
| Du - Affricanaidd | 35,295 | 5.5% |
| Du - Unrhyw gefndir du arall | 1817 | 0.3% |
| Du – Caribïaidd | 7783 | 1.2% |
| Cymysg - Unrhyw gefndir cymysg/ethnig lluosog arall | 2248 | 0.4% |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 1649 | 0.3% |
